


UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd**
**European Structural and Investment Funds**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-20 yng Nghymru:

## Effaith a manteision i bobl,cymunedau a busnesau Cymru

# Rhagair gan y Gweinidog



**Wrth inni nesáu at gam cyflawni olaf prosiectau sydd wedi'u hariannu gan yr UE yn Rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-20 yng Nghymru, ac yn wynebu byd newydd ar ôl ymadael â'r UE, mae hyn yn gyfle delfrydol inni bwyso a mesur ynghylch y llwyddiannau arwyddocaol, yr effaith a'r manteision mae cronfeydd strwythurol wedi'u darparu i bobl, busnesau a chymunedau Cymru.**

Er bod Cymru wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar ddechrau'r flwyddyn, bydd ein Rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE gyfredol yng Nghymru yn dal yn weithredol tan 2023, felly bydd nifer o brosiectau cenedlaethol, rhanbarthol a chymunedol sy'n cael cymorth gan gronfeydd yr UE yn parhau i sicrhau manteision i bobl yng Nghymru.

Mae'r ddogfen hon yn darparu ciplun o amrywiaeth ac ehangder y prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy'r rhaglen gyfredol. O adfywio canol trefi, cefnogi cysylltiadau trafnidiaeth newydd a gwell, hybu ymchwil ac arloesi, a sbarduno'r defnydd o ynni adnewyddadwy yng Nghymru; i gefnogi busnesau sefydledig a busnesau newydd yng Nghymru, darparu hyfforddiant sgiliau a gwella cyfleoedd cyflogaeth pobl, mae prosiectau sydd wedi'u hariannu gan yr UE wedi cael effaith gadarnhaol a buddiol ar bobl ledled Cymru.

Rydym wedi buddsoddi dros £2.1 biliwn o'n dyraniad o Gronfeydd Strwythurol yr UE mewn prosiectau rhanbarthol a chenedlaethol, gan sbarduno buddsoddiad o dros £4 biliwn yng Nghymru at ei gilydd. Mae hyn hefyd yn cynnwys cymryd camau gweithredu i newid diben Cronfeydd Strwythurol yr UE er mwyn darparu cymorth angenrheidiol ar unwaith ar gyfer yr ymateb i COVID-19 yng Nghymru yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer cymorth hollbwysig i fusnesau, fel y Gronfa Cadernid Economaidd, recriwtio staff meddygol ychwanegol, a phrynu cyfarpar diogelu personol (PPE). Yn ogystal â hynny, rydym wedi sicrhau y gall nifer o brosiectau ehangu eu gweithrediadau a pharhau i ddarparu manteision tan 2023 er mwyn cefnogi ein hadferiad economaidd ar ôl Covid, a mynd i'r afael â goblygiadau Brexit.

Mae cadw a datblygu talent yma yng Nghymru yn hollbwysig i'n twf economaidd yn y dyfodol, ac i ragor o ffyniant, felly rydym wedi buddsoddi dros £860m mewn prosiectau sgiliau a chyflogadwyedd. Mae hyn wedi helpu i ragori ar ein targed o dros 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel i bobl o bob oedran, ac i greu dros 21,000 o hyfforddeiaethau gyda

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG41653 ISBN digidol 978-1-80195-072-5

chyflogwyr ledled Cymru. Mae hefyd wedi ariannu prosiectau hanfodol fel y rhaglenni Cymunedau am Waith, a Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, sydd â hanes llwyddiannus o chwalu rhwystrau i gyflogaeth i filoedd o bobl ill dau.

Hefyd mae cronfeydd yr UE yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a moderneiddio seilwaith, fel y gwaith uwchraddio Prifysgolion ar raddfa fawr yn Abertawe, Caerdydd, Aberystwyth a Bangor, uwchraddiadau i rwydweithiau ffordd yr A55 a'r A40, y rhwydwaith gorsafoedd trên, a datblygiad prosiect Metro De Cymru. Mae hynny ar ben buddsoddiad mawr yn ein seilwaith digidol, rhywbeth sydd wedi dod yn fwy a mwy pwysig dros y 12 mis diwethaf, gan ganiatáu i sefydliadau, busnesau, cymunedau a phobl ar hyd a lled Cymru deimlo'n unedig ac yn gysylltiedig.

Mae cyfanswm y buddsoddiad o gronfeydd yr UE mewn ymchwil ac arloesi dros £500 miliwn erbyn hyn. Mae disgwyl i bortffolio cyfredol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop godi £230 miliwn o gyllid ymchwil ac arloesi cystadleuol erbyn diwedd y Rhaglen Weithredol, gan gefnogi nifer o brosiectau sy'n dod â phartneriaid busnes ac academaidd ynghyd i droi ymchwil academaidd yn gynnyrch arloesol. Mae'r buddsoddiadau hyn yn creu effaith arwyddocaol, o chwarae rôl allweddol mewn datblygiadau arloesol ym maes dementia, sepsis a chyflyrau nychus eraill i gefnogi prosiectau unigryw fel y labordy arloesi cyfreithiol cyntaf yng Nghymru, datblygiadau ym maes technoleg gyfreithiol, cefnogi mynediad cyffredinol at gyfiawnder, a helpu i fynd i'r afael â seiberdroseddu. Maen nhw hefyd yn darparu cymorth ychwanegol i'r ymateb i COVID-19, fel ASTUTE 2020 a'r Ganolfan Cyflymu Technoleg Gofal Iechyd, a oedd wedi helpu Coleg Peirianneg Prifysgol Abertawe i ddylunio amddiffynwyr wyneb i ddiogelu staff y GIG yn erbyn COVID-19.

Mae £119 miliwn o gronfeydd yr UE yn cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni, fel cynlluniau ynni cymunedol a gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi incwm isel, lleihau tlodi tanwydd a sbarduno'r broses o symud Cymru i ddyfodol carbon isel. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad o £74m mewn ymchwil a datblygu ym maes Ynni'r Môr, sefydlu safleoedd arddangos a mannau profi yng ngogledd a gorllewin Cymru, helpu cwmnïau Cymreig a rhyngwladol i ddatblygu, a phrofi technoleg ynni'r môr yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi adeiladu ar waddol rhaglenni blaenorol mewn cysylltiad â Chyfleoedd Cyfartal, Prif Ffrydio Rhywedd, Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol, gan integreiddio'r themâu hyn yn ein rhaglenni presennol. Drwy raglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 rydym yn buddsoddi miliynau o bunnoedd mewn mentrau i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb penodol, i chwalu'r rhwystrau i gyflogaeth, ac i gynyddu cyfranogiad dynion a merched mewn meysydd gwaith nad ydynt yn rhai traddodiadol.

Mae'r buddsoddiadau hyn wedi bod a byddant yn parhau i fod yn hollbwysig i wneud Cymru'n wlad fwy modern, cyfartal, cystadleuol a gwyrdd, a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'n holl bartneriaid am eu hymrwymiad i gyflawni'r llwyddiant hwnnw.

Mae hyn yn cynnwys gwaith partneriaid, fel timau ymgysylltu rhanbarthol awdurdodau lleol, a Thîm Ewropeaidd y Trydydd Sector CGGC sydd wedi helpu i ddarparu cyngor a chanllawiau i brosiectau a sefydliadau ar Gronfeydd Strwythurol yr UE. Hefyd, rhedeg amrywiol gyrsiau hyfforddi, rhwydweithiau a sesiynau gwybodaeth i sefydliadau sy'n rhedeg prosiectau a ariennir gan yr UE neu sydd â diddordeb gwneud hynny. Yn ogystal â helpu i hwyluso'r gwaith o integreiddio buddsoddiadau â chyllid arall sydd ar gael drwy raglenni rhanbarthol a rhai sy'n seiliedig ar sectorau, er mwyn gwneud yn fawr o'n buddsoddiadau. Mae hyn wedi helpu i sicrhau newidiadau gweddnewidiol ac wedi cael effaith gadarnhaol ar dwf a swyddi ledled Cymru.

Sail ein llwyddiant yw partneriaethau, lle mae Llywodraeth Cymru a'r sector preifat, ymchwil ac academia, awdurdodau lleol, y trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus eraill wedi dod at ei gilydd yn uniongyrchol, a chryfder y partneriaethau hyn yw gwaddol go iawn y rhaglenni hyn.

Wrth inni edrych tua'r dyfodol a'n fframwaith ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru, byddwn yn parhau i adeiladu ar y llwyddiant hwn ac ar yr egwyddorion arweiniol hynny. Byddwn yn gweithio gyda busnesau, awdurdodau lleol, prifysgolion a cholegau, y trydydd sector a chymunedau – partneriaid sy'n gwybod beth sydd orau i'n gwlad – i fynd i'r afael â heriau'n uniongyrchol a manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael.



**Jeremy Miles**
Y Cwnsler Cyffredinol
a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyniad | | 5 |
| 01 | Ymchwil ac Arloesi | 7 |
| 02 | Sgiliau Twf | 12 |
| 03 | Cystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig | 22 |
| 04 | Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid | 29 |
| 05 | Cysylltedd a Datblygu Trefol | 33 |
| 06 | Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy | 39 |
| 07 | Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni | 43 |

# Cyflwyniad

Mae Cymru wedi elwa ar dros £2.1bn o gyllid yr UE drwy ein rhaglenni Cronfeydd Strwythurol (Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop) ar gyfer y cyfnod 2014-2020.

Nod Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yw lleihau problemau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mewn ardaloedd trefol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu trefol cynaliadwy.

Nod Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yw buddsoddi mewn pobl i helpu i gynyddu cyflogaeth, i leihau tlodi ac i wella cyrhaeddiad addysgol, gan felly wella cyfleoedd pobl mewn bywyd a gwaith.

Mae Cronfeydd Strwythurol yr UE wedi helpu sefydliadau'r sector cyhoeddus, sefydliadau addysg uwch a phellach, busnesau a sefydliadau gwirfoddol i ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau i helpu i adfywio ein trefni a'n cymunedau, i helpu economi Cymru i dyfu, ac i greu swyddi. Maen nhw hefyd wedi cryfhau ein sylfaen ymchwil a helpu i sicrhau'r trawsnewidiad carbon isel yng Nghymru.

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar brif flaenoriaethau ERDF ac ESF, sef:

- **Ymchwil ac Arloesi**
- **Cystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig**
- **Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni**
- **Cysylltedd a Datblygu Trefol**
- **Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy**
- **Sgiliau Twf**
- **Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid**

Mae pob pennod yn canolbwyntio ar un flaenoriaeth, gan gynnwys astudiaethau achos a thystiolaeth sy'n amlygu'r manteision, y llwyddiannau a'r effeithiau cadarnhaol y mae ein partneriaid wedi'u sicrhau gyda chyllid yr UE yn Rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020 yng Nghymru.

At ddiben y ddogfen hon, byddwn yn canolbwyntio ar dair o flaenoriaethau ESF. Cytunwyd ar y flaenoriaeth Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gweithio'n rhanbarthol ESF yn nes ymlaen yng nghyfnod y rhaglen, felly mae'n dal yn ddyddiau cynnar o ran gweithredu'r prosiectau sydd wedi cael cyllid o dan y flaenoriaeth hon.


## Ledled Cymru hyd yma, rydym wedi:

- buddsoddi **£2.13 biliwn**, o gyllid yr UE, gan sbarduno buddsoddiad o £4 biliwn at ei gilydd
- creu **19,760** o swyddi newydd
- creu **3,565** o fusnesau
- helpu **27,080** o bobl i gael gwaith
- helpu pobl i ennill **114,440** o gymwysterau newydd
- cefnogi **6,700** o bobl i ymgymryd â dysgu pellach



## 01 Ymchwil ac Arloesi

Mae cronfeydd yr EU wedi helpu i gynyddu cystadleurwydd a chynhyrchiant Cymru ar raddfa fyd-eang drwy helpu busnesau i ddatblygu, profi a lansio gwell cynnyrch, prosesau a gwasanaethau masnachol, gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud â charbon isel. Mae’r cyllid hefyd wedi helpu i ddatblygu capasiti ymchwil o’r radd flaenaf yng Nghymru, gan adeiladu ar y cryfderau a oedd yn bodoli’n barod i ddenu rhagor o gyllid ymchwil preifat a chystadleuol.



Wedi sicrhau **£124m** o gyllid ymchwil

**€18m** o fuddsoddiad preifat i gyfateb i’r cymorth cyhoeddus mewn prosiectau arloesi neu ymchwil a datblygu

**1,157** o bartneriaid wedi cydweithredu ar brosiectau ymchwil

Wedi helpu **74** o fentrau i gyflwyno cynnyrch newydd i’r farchnad

**47** o batentau wedi’u cofrestru ar gyfer cynnyrch

# Sefydliad Ymchwil Peirianneg a Deunyddiau Uwch (AEMRI)

Mae £8.4m o gyllid yr UE wedi cefnogi prosiect AEMRI TWI Ltd, sef cyfleuster arolygu a dilysu peirianneg o'r radd flaenaf yn TWI Cymru ym Mhort Talbot. Mae'r cyfleuster wedi galluogi TWI iadeiladu ar ei hanes blaenorol o arwain ymchwil diwydiannol arloesol i brofion anninistriol mewn sectorau deinamig gan gynnwys awyrofod, modurol, electroneg, a niwclear ac ynni.

**Dywedodd Ian Nicholson, rheolwr prosiectau AEMRI yn TWI Cymru:**

*"Mae AEMRI wedi galluogi TWI Cymru i aros ar flaen y gad o ran ymchwil i brofion anninistriol. Nid ein barn ni yn unig yw hyn. Mae wedi'i gadarnhau gan adborth y diwydiant. "O ganlyniad, rydyn ni wedi cynyddu ein hincwm ymchwil a datblygu drwy amrywiaeth o brosiectau mawr sydd, yn eu tro, wedi helpu i greu 20 o swyddi newydd yn ein safle ym Mhort Talbot*

*"Mae'r swyddi newydd hyn, yn ogystal â chydweithrediad cryfach â phrifysgolion a myfyrwyr PhD/EngD ar y cyd o ganlyniad i hynny yn paratoi'r ffordd ar gyfer datblygu cenedlaethau o beirianwyr ymchwil medrus iawn, a chreu gwybodaeth a gwaddol parhaol i Gymru."*





# SEACAMS


Mae dros £27m o gyllid yr UE wedi cefnogi'r prosiect SEACAMS (Ehangu Sectorau Arfordirol a Morol Cymwysedig mewn Dull Cynaliadwy), sy'n cynnwys Prifysgolion Bangor, Aberystwyth ac Abertawe, i ddatblygu economi ac amgylcheddau arfordirol a morol Cymru, a chefnogi cyfleoedd economaidd Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd drwy ymchwil ac arloesi ym maes ynni adnewyddadwy'r môr, a'r economi forol ehangach. Hefyd, fel rhan o'r prosiect, adeiladwyd Canolfan Arloesi newydd ym Mhorthaethwy sydd wedi darparu cyfleusterau labordy a gofod swyddfa.




**Dywedodd yr Athro Lewis LeVay, Cyfarwyddwr y prosiect SEACAMS yng Nghanolfan Gwyddorau Môr Cymhwysol Ysgol Gwyddorau Eigion Prifysgol Bangor:**

*"Mae SEACAMS wedi bod yn helpu i ddatgloi potensial ynni adnewyddadwy'r môr yng Nghymru drwy bartneriaethau ymchwil cydweithredol â'r diwydiant ynni adnewyddadwy.*

*"Mae Cymru mewn sefyllfa dda i fod yn arweinydd byd o ran cynhyrchu ynni carbon isel o'i dŵr arfordirol ac ar y môr, ac mae cyllid yr UE wedi bod yn sail i gydweithrediad rhwng y diwydiant ac ymchwilwyr y brifysgol, gan bontio'r bwlch rhwng arloesi ac ymchwil morol cymhwysol. Mae hyn wedi helpu i ddatblygu sector ynni adnewyddadwy'r môr drwy fynd i'r afael ag amrywiaeth eang o gwestiynau ymchwil allweddol mewn hyd at 80 o brosiectau cydweithredol."*



# Canolfan Delweddu Prifysgol Caerdydd er Ymchwil yr Ymennydd (CUBRIC II)

Mae £4.5m o gyllid yr EU wedi helpu cyfleuster CUBRIC II Prifysgol Caerdydd i alluogi ymchwilwyr i brofi syniadau a damcaniaethau newydd yn gyflym er mwyn cael dealltwriaeth gyflymach o achosion amrywiaeth o gyflyrau iechyd, gan gynnwys dementia, sgitsoffrenia, a sglerosis ymledol. Roedd y cyllid wedi cefnogi'r gwaith o adeiladu'r cyfleuster arloesol newydd ym Mharc Maendy.

**Dywedodd yr Athro Derek Jones, Cyfarwyddwr CUBRIC:**
*"Fe wnaeth arian yr UE ein galluogi i wireddu ein huchelgais o ddatblygu un o'r canolfannau ymchwil niwroddelweddu mwyaf o ran maint ac adnoddau yn Ewrop. Mae hyn wedi cyflymu ein rhaglen ymchwil yn sylweddol, gan ganiatáu i ni gryfhau ein henw da yn rhyngwladol am ddatblygu dulliau unigryw a defnyddio cyfarpar arloesol i fesur strwythur, swyddogaeth a ffisioleg yr ymennydd dynol byw yn gadarn.*

*"Mae hyn wedyn wedi arwain at lawer o fanteision ychwanegol, gan gynnwys partneriaeth strategol â Siemens Healthcare i archwilio cyfeiriad sganwyr MRI yn y dyfodol, dylifiad o ymchwilwyr talentog iawn sydd ar ddechrau eu gyrfa yn symud i Gaerdydd â chymrodoriaethau ymchwil rhyngwladol, a rhwydwaith cynyddol o gydweithredwyr rhyngwladol yn gwneud arbrofion na fyddent yn bosib heb y cyfarpar sydd yn y Ganolfan. Felly, mae arian yr UE wedi helpu i roi Cymru ar y map ar gyfer ymchwil niwroddelweddu o'r radd flaenaf".*









# ArloesiAber

Mae £23.1m o gyllid yr UE wedi helpu i greu'r campws ArloesiAber newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth, sy'n gartref i gyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer y sectorau bioburo, technoleg amaethyddol, a bwyd a diod.

Ymysg y cyfleusterau mae Canolfan Bioburo, Canolfan Bwyd y Dyfodol, Uwch Ganolfan Ddadansoddi a Biofanc Hadau, yn ogystal â digon o fannau digwyddiadau, cyfleusterau hyfforddi, a gofod labordy a swyddfa.

Mae'r gwaith ymchwil a datblygu yn ArloesiAber yn helpu i fynd i'r afael â rhai o heriau mawr mwyaf enbyd yr 21ain ganrif, gan gynnwys lliniaru yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, cynaliadwyedd, a diogelwch bwyd ac ynni. Bydd llwyddo i arloesi yn y meysydd hyn yn hollbwysig ar gyfer meithrin bioeconomi gynaliadwy sy'n seiliedig ar wybodaeth.


**Dywedodd Dr Rhian Hayward MBE, Prif Swyddog Gweithredol ArloesiAber:**

*"Mae cyllid yr UE wedi bod yn hollbwysig ar gyfer cyflenwi cyfleusterau ArloesiAber. Bydd ein galluogrwydd newydd yn sail i ehangu'r ymchwil a datblygu cydweithredol rhwng y diwydiant a Phrifysgol Aberystwyth, gan greu swyddi uchel eu gwerth a chynnyrch newydd a chyffrous o Gymru. Mae eisoes cyflenwad iach o weithgareddau datblygu cynnyrch ar gyfer ein gofod labordy a phrosesu ym meysydd bwyd a diod, bioburo a thechnoleg amaethyddol. Rydyn ni'n edrych ymlaen at weld ArloesiAber yn cyfrannu at dwf economaidd yng Nghymru fel ased seilwaith allweddol".*





## 02 Sgiliau Twf



Mae cyllid yr UE wedi helpu i wella lefel sgiliau'r gweithlu a'r mynediad at hyfforddiant, i gynyddu nifer y bobl sy'n meddu ar gymwysterau lefel ganolradd neu uwch, i leihau nifer y bobl heb unrhyw sgiliau neu sy'n meddu ar sgiliau sylfaenol yn unig, ac i gynyddu'r sgiliau lefel uwch ym maes ymchwil ac arloesi. Hefyd, mae cyllid yr UE wedi helpu i leihau'r anghydraddoldeb yn y farchnad lafur ymysg merched ac i gefnogi gweithlu cryfach, mwy amrywiol.

**14,440** o ferched cyflogedig a hunangyflogedig sy'n meddu ar gymwysterau hyd at addysg uwchradd is

**20,883** o ddynion cyflogedig a hunangyflogedig sy'n meddu ar gymwysterau hyd at addysg uwchradd is

**14,215** o ddynion cyflogedig a hunangyflogedig ag addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol, technegol neu benodol i swydd cyn gadael

**10,063** o ferched cyflogedig a hunangyflogedig ag addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol, technegol neu benodol i swydd cyn gadael

# Cenedl Hyblyg 2 – Chwarae Teg

Wedi'i gefnogi gan £19.7m o gyllid yr UE, mae prosiect Cenedl Hyblyg 2, a gyflawnir gan Chwarae Teg, wedi rhoi cymorth i ferched a helpu cyflogwyr i hyrwyddo datblygiad gyrfa merched, ac i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Mae'r prosiect yn helpu merched sy'n gweithio i ddatblygu eu gyrfa drwy ddarparu mentora a chymwysterau arweinyddiaeth achrededig, ac yn helpu busnesau i roi strategaethau cydraddoldeb ac arferion gweithio modern ar waith.

Mae'r prosiect wedi adeiladu ar lwyddiant y prosiect Cenedl Hyblyg cyntaf, a oedd wedi elwa ar gyllid yr UE hefyd ac wedi rhoi hwb i yrfa bron i 3,000 o ferched, a gweithio gyda dros 500 o gyflogwyr.

**Dywedodd Cerys Furlong, Prif Weithredwr Chwarae Teg:**

*"Does dim modd tanbrisio'r manteision sydd wedi'u creu drwy gyllid yr UE. Yn Chwarae Teg, mae wedi ein galluogi i redeg Rhaglenni Datblygu Gyrfa a Busnes Cenedl Hyblyg 2. Mae cyllid yr UE wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a chlir i fywyd miloedd o ferched yng Nghymru. Rydym wedi cael nifer aruthrol o ymatebion cadarnhaol gan gyfranogwyr. Hyd yma mae miloedd o ferched wedi cymryd rhan yng Nghymru ac wedi sicrhau cyfanswm o £3 miliwn mewn codiadau cyflog"*

## **Astudiaeth achos:** Zahira Gousy, Arbenigwr Gwelliant Parhaus, ConvaTec

Ar ôl i gyd-weithiwr argymell Rhaglen Datblygu Gyrfa Cenedl Hyblyg 2 yn frwd, cymerodd Zahira olwg fanwl ar y rhaglen. Roedd hi'n awyddus i symud i rôl arweinyddiaeth yn y gwaith ac i weld sut gallai'r cwrs gyd-fynd â'i bywyd gwaith, felly fe wnaeth hi gofrestru ac mae hi'n dweud bod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar ei gyrfa.

*Dywedodd Zahira: "Yn ogystal â rhoi cyfle imi fyfyrio ar fi fy hun ac ar fy ngwaith, fe wnaeth y rhaglen fy helpu i ddeall fy arddull arwain naturiol a'r agweddau ar fy mhersonoliaeth a fyddai'n fy ngwneud yn arweinydd da. Gadawodd imi feddwl yn gadarnhaol am fy sgiliau a fy llwyddiannau, a datblygu meddylfryd twf sydd wedi aros gyda mi. Hyn i gyd yng nghwmni merched a oedd yn dathlu ein gilydd wrth inni ddysgu gyda'n gilydd."*



## **Astudiaeth achos:** Carys Godding, Peiriannydd ATC, Dŵr Cymru

A hithau'n beiriannydd gyda Dŵr Cymru, cafodd Carys eu hannog i fynd ar drywydd eu dymuniad i ddatblygu ei sgiliau goruchwylio drwy ymuno â Rhaglen Datblygu Gyrfa Cenedl Hyblyg 2. Roedd ei chynnwys ac adborth y cyfranogwyr blaenorol wedi gwneud argraff arni, felly fe wnaeth hi gofrestru ac nid yw hi wedi edrych yn ôl. Siaradodd am ei phrofiad yn y digwyddiad graddio.

Meddai Carys: *"Roedd y rhaglen wedi rhoi cyfle imi dreulio amser ar gyfer fi fy hun, gwerthuso fy sgiliau a deall fy nghryfderau – sydd yn ei dro wedi gwella fy sgiliau cyfathrebu ac arwain. Erbyn hyn rwy'n fwy hyderus o lawer yn fy rôl ac mae gen i sgiliau gwerthfawr er mwyn gallu symud i'r lefel reoli nesaf. Byddwn yn argymell y rhaglen yn frwd iawn i ferched eraill."*




## **Astudiaeth achos:** DWJ Wealth Management

Fe wnaeth y busnes ariannol DWJ Wealth Management gyflawni Rhaglen Busnes Cenedl Hyblyg 2 fel Cyflogwr Chwarae Teg 'Blaenllaw' yn 2019. Mae'r cwmni wedi gallu sicrhau manteision gweithlu mwy amrywiol, lle mae gwell cydbwysedd rhwng y rhywiau, ac ers hynny mae wedi cydweithio â Chwarae Teg i hyrwyddo'r cynllun i eraill.

Yn ôl Danni Watts-Jones, Managing Director, DWJ Wealth Management, mae'r canlyniadau cadarnhaol yn glir: *"Drwy'r rhaglen, mae cymorth ac arweiniad Chwarae Teg wedi ein helpu i wneud fwy o elw, i wella'r profiad i gleientiaid, ac i gadw staff a chyflogi rhagor. Gyda'u cymorth rydyn ni wedi llawn groesawu arferion gweithio'n hyblyg, sydd wedi ein helpu i wynebu pandemig annisgwyl y coronafeirws mewn modd effeithiol a chadw'r busnes i redeg yn ddi-dor"*



# Prentisiaethau

Mae cynllun Prentisiaethau Llywodraeth Cymru yn cael ei gefnogi gan dros £206m o gyllid yr UE. Mae'r cynllun yn galluogi pobl i ennill cyflog a datblygu eu sgiliau gyda chyflogwr, gan gael hyfforddiant ffurfiol gan un darparwr o blith rhwydwaith o rai cymeradwy ar yr un pryd. Mae hyn ar gael mewn amrywiaeth o feysydd traddodiadol a rhai nad ydynt yn draddodiadol, gan gynnwys adeiladu, peirianneg, TG a manwerthu.

## Astudiaeth achos

Roedd Tiffany Evans, merch 27 oed o Gastell-nedd, yn dymuno dysgu sgiliau newydd i symud ymlaen yn ei gyrfa, ond nid oedd yn siŵr a oedd hi'n gallu fforddio bywyd myfyriwr eto.

Cafodd Tiffany wybod y gallai hi ddilyn gyrfa fel peiriannydd telegyfathrebu gydag Openreach drwy brentisiaeth: gan olygu y gallai hi ddatblygu sgiliau newydd wrth barhau i ennill cyflog.

*Dywedodd Tiffany: "Roeddwn i'n gwybod mai prentisiaeth oedd y llwybr iawn imi, ond doeddwn i ddim yn siŵr beth oedd gwaith peiriannydd o ddydd i ddydd. Ges i sgwrs â rhai o beirianwyr Openreach, gan ein bod yn gweithio yn yr un adeilad, ac fe wnaethon nhw gynnig diwrnod treial imi er mwyn imi allu cael cipolwg ar y gwaith.*

*"Roed gweld y rhwydwaith telegyfathrebu llawn a gwaith amrywiol y peirianwyr yn golygu fy mod yn gallu penderfynu a oeddwn yn gallu dychmygu fy hun yn gwneud y gwaith yn llawn amser. Ac fe roeddwn i. Nes i fwynhau mas draw ac roeddwn i'n dymuno dysgu mwy.*

*Ar ôl cwblhau ei phrentisiaeth, mae Tiffany bellach yn gweithio amser llawn fel peiriannydd telegyfathrebu gydag Openreach, gan ddefnyddio'r sgiliau yr oedd hi wedi'u dysgu yn ystod ei phrentisiaeth.*

*"Y cyngor fydden i'n ei roi i bobl ydy gwrandewch ar eich greddf, a gofynnwch gwestiynau. Fydden i byth wedi cael y cyfle hwn pe bawn i wedi anwybyddu'r teimlad annifyr hwnnw nad oedd fy hen swydd yn iawn imi"*



## Astudiaeth achos

Mae Jake Carey yn hyfforddi i weithio ar dyrbinau gwynt fel prentis peirianneg pŵer gwynt, gan wneud ei ran yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

*Dywedodd: "Mae magwraeth yn Llandudno yn golygu nad ydych chi'n medru methu'r tyrbinau gwynt pan ydych chi'n cerdded ar lan y môr, ond 'nes i byth ddychmygu y byddwn i'n un o'r dethol rai sy'n cael hwylio allan a gweithio arnyn nhw!*

*"Dwi'n meddwl ei bod hi'n ddigon posib y byddwn i wedi bod yn un o'r bobl hynny sy'n mynd i banig am beth i'w wneud ar ôl gadael yr ysgol a dilyn llwybrau gyrfa fy ffrindiau heb feddwl.*

Roedd gan Jake ddiddordeb mewn peirianneg, electroneg a gwyddoniaeth erioed, a chafodd ei ysbrydoli gan ei ewythr i ystyried prentisiaeth fel ffordd o ddysgu mwy.

*"Mae dilyn prentisiaeth wedi agor fy llygaid i'r byd gwaith. Dim ond 20 ydw i rŵan ond dyma fi, ddim yn bell o gymhwyso, mewn swydd hynod arbenigol a thechnegol.*

*"Dim ond tyfu fydd y sector ynni adnewyddadwy gyda mwy a mwy o ffocws ar arbed y blaned, a dwi'n falch o chwarae rhan fach yn hynny o beth.*

*"Yr hyn dwi'n ei hoffi fwyaf am fy mhrentisiaeth yw bod gen i syniad clir am fy ngyrfa a fy mywyd ar oedran cymharol ifanc.*

*"Dwi'n teimlo'n dda yn gwybod bod y math hwnnw o yrfa yn opsiwn i mi ac mae dilyn prentisiaeth yn golygu fy mod ar drywydd llwyddiant yn barod."*



# Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru

Cafodd Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru, sy'n cael ei arwain gan Welsh Contact Centre Forum Ltd, £4.8m o gyllid yr UE. Mae'n cefnogi graddedigion sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y sector ariannol.

Mae'r cyfranogwyr yn elwa ar raglen datblygu dwy flynedd sy'n cyfuno profiad gwaith technegol, penodol i swydd, sgiliau cyflogadwyedd, gwaith prosiect ac astudiaethau academaidd, gan arwain at gymhwyster Meistr mewn Rheoli Gwasanaethau Ariannol. Mae'r cynllun yn cyflymu gyrfaoedd ac yn datblygu arweinwyr y dyfodol yn y diwydiant.

**Dywedodd Rowena Morgan, Rheolwr Rhaglenni, Welsh Contact Centre Forum Ltd:**

*Mae Rhaglenni Graddedigion Cymru yn fentrau strategol a chydweithredol sy'n anelu at greu a chadw'r talentau gorau yng Nghymru. Mae graddedigion yn cwblhau'r Rhaglen fel gweithwyr proffesiynol cyflawn ac amryddawn y mae galw mawr amdanynt, gan feddu ar gymhwyster Meistr ar ben hynny – yn union beth mae pob cyflogwr yn chwilio amdano. Mae gennym hanes ardderchog o sicrhau gwaith i'n graddedigion – llwyddiant o 98%, a hynny yn y consortiwm a'r rhanbarth ehangach, sy'n brawf o ansawdd ein graddedigion ac ymroddiad ein cyflogwyr i'w datblygiad.*

*Mae cyllid yr UE wedi bod yn hollbwysig o ran galluogi a datblygu'r Rhaglenni, sy'n cael eu hystyried yn rhai gorau o'u math ar gyfer datblygu gwyddor data a sgiliau gwasanaethau ariannol. Mae'r Rhaglen yn fenter flaenllaw sy'n unigryw i Gymru, gan ddangos partneriaeth wirioneddol rhwng y Llywodraeth, y diwydiant a'r byd academaidd."*

## Astudiaeth Achos

Fe wnaeth Ryan Davies o Aberdâr ymuno â Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru yn 2015. Ers hynny mae wedi cael lleoliad parhaol ym Manc Hodge ar ôl bod ar leoliad yno, wedi cael ei ddyrchafu sawl gwaith, a bellach mae'n eistedd ar Fwrdd Cynghori Strategol y Rhaglen Graddedigion.

*Meddai Ryan, "Rwy'n teimlo'n ofnadwy o ffodus i fod yn y sefyllfa hon heddiw". Rwyf wedi bod yn ffodus i gael mentoriaid ac arweinwyr gwych sydd wedi fy nghefnogi'n frwd, ac wedi fy helpu i ddatblygu.*

*"Roedd y Rhaglen Graddedigion yn rhan mor bwysig o fy ngyrfa, felly pan glywais i fod cyfle i ymuno â Bwrdd Cynghori Strategol y Rhaglen, roedd yn rhaid manteisio ar y cyfle hwnnw.*

*"Mae gan y Rhaglen gymaint i'w gynnig i fusnesau ac i raddedigion, ac mae gallu dylanwadu ar y rhaglen gan ddefnyddio fy mhrofiad uniongyrchol, gyda'r nod o ysbrydoli rhagor o raddedigion a busnesau i gymryd rhan, yn teimlo fel ffordd wych o roi'n ôl.*

*Mae llawer o bobl yn gadael yr ysgol neu'r brifysgol heb wybod beth maen nhw'n dymuno ei wneud. Felly yr oeddwn i, doeddwn i ddim yn siŵr beth roeddwn i am ei wneud na beth gallwn i ei gynnig i gwmni. Fe wnaeth y Rhaglen Graddedigion ganiatáu i mi ddilyn proses i fy helpu i ddeall beth oedd gennyf i ddiddordeb ynddo, a ble roedd cyfleoedd ar gael"*



## Astudiaeth achos

Ar ôl graddio mewn Cyfrifeg a Chyllid ym Mhrifysgol Caerdydd, roedd Lucy Stagg yn ansicr ynglŷn â'i llwybr gyrfa. Dyna pryd clywodd hi am y Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru a oedd wedi'i lansio'r flwyddyn flaenorol.

Gan ymuno â'r rhaglen yn 2015, cafodd Lucy o Lantrisant leoliad yn Atradius, yswiriwr credyd masnach byd-eang sydd â'i bencadlys y DU ym Mae Caerdydd.

Enillodd Lucy gontract amser llawn yn Atradius fel rheolwr prosiectau yn y tîm cynnyrch a chydymffurfio, ond â'r cyfle o hyd i barhau â'r rhaglen Meistr gyda chefnogaeth y cwmni.

Cwta bum mlynedd ar ôl dechrau ei lleoliad cyntaf, daeth Lucy yn uwch reolwr sy'n adrodd yn uniongyrchol i Gyfarwyddwr Gwlad Atradius, ac mae'n rhan o'r tîm rheoli masnachol. Erbyn hyn mae hi'n rheoli pedwar tîm gwahanol yn Atradius. Mae'r tîm marchnata, y tîm cynnyrch, y tîm gweinyddu polisïau a'r tîm gwasanaethau i gwsmeriaid i gyd yn adrodd iddi.

*"Dwi wrth fy modd," esboniodd Lucy. "Dwi'n teimlo ei bod wir yn stori lwyddiant, bod yn uwch reolwr o fewn pum mlynedd i ddechrau'r cynllun i raddedigion.*

*"Byddwn i byth wedi cael y cyfle hwn heb y Rhaglen. Mae wedi fy arwain at rywbeth dwi wir yn ei fwynhau, yn ogystal ag ymestyn fy addysg a meithrin fy ngyrfa. Mae'n darparu'r cyfuniad perffaith o ddysgu a phrofiad gwaith er mwyn ichi allu dysgu'r theori cyn ei defnyddio yn y gweithle.*



*"Mae'r Rhaglen yn hollol wych, does dim dwywaith am hynny. Os ydych chi'n ystyried gwneud cais, ewch amdani! Os ydych chi'n llwyddiannus, manteisiwch ar bob cyfle a ddaw. Gofynnwch gwestiynau, peidiwch â bod yn ofn herio a manteisiwch ar eich sefyllfa i sicrhau cymaint o newid â phosib – er gwell"*

# Sgiliau ar gyfer Diwydiant II

Wedi'i gefnogi gan £11.8m o gyllid yr UE, mae Sgiliau ar gyfer Diwydiant II dan arweiniad Coleg Gŵyr yn darparu mynediad cyfartal at ddysgu gydol oes i bob grŵp oedran mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol, er mwyn codi lefel sgiliau a mynd i'r afael â'r bylchau mewn sgiliau drwy ddarparu cymwysterau sgiliau hanfodol a galwedigaethol i weithwyr â lefel sgiliau is.

Mae'r prosiect yn ymgysylltu â sectorau fel ynni, adeiladu, y diwydiannau creadigol, gwyddoniaeth, gweithgynhyrchu uwch, TGCh, modurol, peirianneg, gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, bwyd, gofal, a thwristiaeth.

*"Gyda chymorth cyllid yr UE drwy Lywodraeth Cymru, mae'r prosiect Sgiliau ar gyfer Diwydiant gwerth £19m wedi gallu cynnig ystod eang o gymwysterau achrededig i fusnesau lleol.*

*Drwy ymgysylltiad a chymorth parhaus ein staff arbenigol, rydyn ni wedi gallu gweithio gyda chwmnïau lleol i ddylunio, datblygu a chyflawni atebion sgiliau arloesol a hyblyg sy'n bodloni anghenion cyflogwyr a gweithwyr, a'u paratoi ar gyfer wynebu heriau heddiw a'r dyfodol."*

## Astudiaeth achos

Pan oedd Elizabeth, a oedd eisoes wedi dilyn prentisiaeth mewn gwneud offer, yn dymuno uwchsgilio, nododd ei chyflogwr y prosiect Sgiliau ar gyfer Diwydiant a oedd yn cael ei gynnig gan Goleg Gŵyr Abertawe fel y dewis gorau, ac fe wnaeth hi gofrestru ar gyfer y Diploma Tystysgrif Genedlaethol Uwch Lefel 4 mewn Peirianneg Fecanyddol.

Er gwaethaf yr heriau yn y gwaith o ran y stigma sy'n gysylltiedig â merched yn gweithio mewn galwedigaeth sy'n cynnwys llawer mwy o ddynion, dangosodd Elizabeth gadernid a phenderfyniad.

Roedd cyllid Sgiliau ar gyfer Diwydiant yn golygu bod y Coleg yn gallu cynnig cymorth ychwanegol i Elizabeth drwy amser staff ac adnoddau ychwanegol, y tu hwnt i'r hyn fyddai ar gael fel arfer.

Llwyddodd i gyflawni'r Diploma Tystysgrif Genedlaethol Uwch Lefel 4 mewn Peirianneg Fecanyddol, a magu'r hyder i gofrestru ar raglen Diploma Cenedlaethol Uwch gyda'r Coleg. Aeth ymlaen i wneud gradd mewn Peirianneg Fecanyddol a Gweithgynhyrchu, a bellach mae hi'n wneuthurwr offer cymwysedig. Roedd hi hefyd yn fuddugol yn y Categori Galwedigaethol i Gymru yng Ngwobrau Addysg Prydain.

O ganlyniad i'w holl waith caled a'i gallu, mae hi wedi goresgyn rhwystrau i'r fath raddau roedd ei Thiwtoriaid/Aseswyr wedi ei henwebu fel Llysgennad Peirianneg Benywaidd Cymru, anrhydedd y mae hi wedi'i ennill ddwywaith.

Roedd Elizabeth yn canmol y cymorth a roddwyd iddi ac yn arbennig o ddiolchgar am y cyllid dechreuol drwy'r prosiect Sgiliau ar gyfer Diwydiant a oedd wedi agor sawl drws, gan ei galluogi i gamu ymlaen a chyflawni ei nodau, a'i gradd mewn peirianneg yn y pen draw.

Roedd Elizabeth hefyd yn llwyddiannus yn ei chais i fod yn diwtor yn adran peirianneg Coleg Gŵyr Abertawe, lle mae hi bellach yn hyfforddi peirianwyr y dyfodol.



## Astudiaeth achos

Nid oedd Marek, brodor o Wlad Pwyl a saer coed hunangyflogedig heb lawer o Saesneg, erioed wedi ennill cymhwyster ym Mhrydain.

Gan weithio oriau hir i gefnogi ei deulu, roedd yn ceisio cael gwaith mwy dibynadwy drwy wneud cais am swyddi gyda'i gyngor lleol, ond roedd angen iddo brofi ei gymhwysedd fel saer coed lefel 3.

Daeth cyswllt cyntaf Marek â phrosiect Sgiliau ar gyfer Diwydiant i ben yn gynnar oherwydd rhesymau personol ac iechyd, ond cysylltodd â'r prosiect eto yn 2020 a chwrdd â swyddog ymgysylltu â busnes.

Cafodd sicrwydd y byddai'n cael cefnogaeth lawn gan dîm y prosiect drwy gydol ei hyfforddiant, gydag ystyriaeth o'r rhwystr iaith bob amser i wneud yn siŵr bod ganddo ddealltwriaeth glir o'r broses gymhwyso.

Roedd Marek wedi cael cynnig swydd gan ei gyngor lleol ac roedd angen ei gymhwyster lefel 3 arno er mwyn gwneud cais am gerdyn perthnasol y Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS).

Roedd asesydd Marek, ynghyd â'r tîm gweinyddol, wedi chwarae rôl hollbwysig yn ei helpu i gyflawni ei NVQ Lefel 3 mewn Gwaith Coed. Cafodd y broses ei chyflymu i sicrhau nad oedd Marek yn colli ei gyfle.

Drwy oresgyn rhai o'r rhwystrau o ran iaith ac amser yr oedd wedi'u hwynebu, roedd Marek wedi gallu cyflawni ei NVQ ar amser a bu'n ddigon ffodus i gael ei swydd ddelfrydol, a oedd yn ei alluogi i gael deupen llinyn ynghyd a darparu cartref diogel i'w deulu.

Er gwaethaf yr holl heriau personol ac iechyd yr oedd Marek wedi'u hwynebu, roedd ei benderfyniad, ei gymeriad a'i ewyllys i lwyddo wedi ei helpu i gamu ymlaen.

Mae arweiniad a mentora parhaus yr asesydd a staff Sgiliau ar gyfer Diwydiant yn dangos cryfder y tîm o ran cefnogi dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i'w helpu i wireddu eu breuddwydion.



# Sgiliau Gwaith i Oedolion II

Mae prosiect Sgiliau Gwaith i Oedolion II Cyngor Torfaen, wedi'i gefnogi gan £7m o gyllid yr UE, yn helpu pobl â lefel sgiliau isel ar draws Torfaen, Blaenau Gwent, Caerffili a Merthyr Tudful i ennill sgiliau newydd, gan arwain at well diogelwch swydd a rhagolygon gyrfa. Mae'r prosiect yn darparu hyfforddiant penodol i swydd mewn meysydd gan gynnwys adeiladu, cyfrifeg a TG, yn ogystal â chyfleoedd i ddatblygu sgiliau allweddol fel llythrennedd digidol.

## Astudiaeth achos

Roedd Laura Jane Davies o Ferthyr Tudful yn gweithio mewn ysgol leol fel cynorthwyydd, ond yn dymuno dechrau ei busnes ei hun yn gwneud ac yn gwerthu rhoddion parti. Roedd hi wedi bod yn gwneud y rhain i'w theulu a ffrindiau ond yn awyddus i gamu ymlaen a throi ei diddordeb yn fusnes.

Roedd Laura'n sylweddoli y byddai dechrau ei busnes ei hun yn ddrud ac y byddai'n anodd iddi ei ariannu gyda theulu ifanc. Un o'r problemau mwyaf i Laura oedd cael yr hyfforddiant cywir i'w galluogi i gamu ymlaen. Fe wnaeth Sgiliau Gwaith i Oedolion ei helpu hi i gyflawni ei hyfforddiant Diogelwch Bwyd a Hylendid wrth Arlwyo yn ddi-dâl.

Drwy ennill y cymhwyster hwn drwy'r cynllun, mae Laura wedi cyflawni ei nod ac wedi dechrau ei busnes ei hun. Mae'n gobeithio y bydd y busnes yn yrfa amser llawn yn y dyfodol, a bydd hi'n parhau i uwchsgilio gyda Sgiliau Gwaith i Oedolion.



## 03 Cystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig

Mae cyllid yr UE wedi darparu cyllid a chymorth i helpu mentrau i gychwyn arni, i helpu busnesau bach a chanolig (gan gynnwys mentrau cymdeithasol) i ehangu ac i ymuno â marchnadoedd newydd, ac wedi mynd i'r afael â diffygion yn y farchnad drwy ddarparu cyllid ad-daladwy.

**£273.6m** o fuddsoddiad mewn mentrau

**€178.9m** o fuddsoddiad preifat i gyfateb i'r cymorth cyhoeddus mewn busnesau bach a chanolig – ddim yn grantiau

Cynnydd cyflogaeth o **11,222** yn y mentrau a gefnogwyd

Cynnydd o **£193.1m** yn y lefelau allforio



## Cymorth Entrepreneuriaeth – Busnes Cymru

Mae'r cynllun Cymorth Entrepreneuriaeth, wedi'i gefnogi gan £24.8m o gyllid yr UE, wedi darparu cymorth busnes un-i-un wedi'i deilwra i tua 200,000 o bobl gan gynnwys arweinwyr busnes, entrepreneuriaid a phobl sy'n dymuno cael llwyddiant masnachol.

Hyd yma mae'r cynllun wedi creu dros 3,800 o fentrau newydd, 19,000 o swyddi newydd, ac wedi cefnogi cynnydd o £241m mewn allforion.

**Dywedodd Tîm Prosiectau'r UE Busnes Cymru:**

*"Mae Busnes Cymru wedi elwa'n sylweddol drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, sydd wedi galluogi'r prosiect i fuddsoddi £92m i gefnogi busnesau bach a chanolig ar hyd a lled Cymru. Mae buddsoddiad yr UE wedi caniatáu i Busnes Cymru ehangu hyd a lled a graddfa'r cymorth, er mwyn ei gwneud hi'n bosib darparu rhaglen cymorth i fusnesau Cymru gyfan sy'n cyflenwi gwasanaeth cofleidiol yn cynnwys cyngor ac arweiniad igychwyn, cynnal a thyfu busnesau. Mae'r cymorth hwn wedi cael effaith enfawr ar y cymorth i entrepreneuriaid, busnesau a swyddi yng Nghymru."*

### Astudiaeth achos

Fe wnaeth Alana Spencer o Aberystwyth lansio Ridiculously Rich by Alana i gynnig amrywiaeth o gacennau a siocled cartref i gwsmeriaid, manwerthwyr ac mewn digwyddiadau ar hyd a lled y wlad.

Ar ôl cymryd rheolaeth lawn dros ei busnes yn dilyn buddsoddiad gan yr Arglwydd Sugar, roedd Alana'n barod i ddatblygu strategaeth newydd i dyfu yn y dyfodol – a dyna pryd ymunodd gwasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei ariannu gan yr UE.

Rhoddodd gymorth i Alana gyda'r gwaith cynllunio cychwynnol ar gyfer agor ei becws newydd yn Aberystwyth drwy strwythur cymorth ariannol a gwasanaethau proffesiynol newydd i ddisodli'r fframwaith a oedd wedi'i ddarparu gan sefydliad yr Arglwydd Sugar, a'i helpu i wneud cais llwyddiannus am Grant Arloesi gwerth £40,000.

Dywedodd Alana: *"Mae'r ffaith bod rhywun ar gael i gynnig cymorth wedi bod yn fuddiol dros ben. Mae cymaint o gyngor a chyllid gwych ar gael i fusnesau yng Nghymru – mae'r ffaith bod Busnes Cymru yno i helpu ac i roi cyngor inni wedi golygu ein bod wedi gallu cael grant arloesi i dyfu'r busnes."*



## Astudiaeth achos

Mae 'In the Welsh Wind' yn ddistyllfa fach yn Nhresaith sy'n edrych dros Fae Ceredigion. Cafodd ei sefydlu gan Alex Jungmayr ac Ellen Wakelam. Mae pob gwirod sy'n cael ei greu gan y busnes yn unigryw ac mae modd ei deilwra, ac mae'r busnes bellach yn creu gwirodydd premiwm pwrpasol i dros 15 o wahanol gwmnïau o bob rhan o Gymru, y DU ac Ewrop.

Aeth ar drywydd gwasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru i gael cymorth ar gyfer sefydlu ei ddistyllfa. Cafodd gymorth ar gyfer amrywiaeth o faterion gan gynghorwyr Busnes Cymru, gan gynnwys ymholiadau cyffredinol ynglŷn â dechrau arni, cynllunio busnes a rhagolygon ariannol, marchnata ac allforio.

*Dywedodd Ellen Wakelam: "Mae ein profiad gyda Busnes Cymru wedi bod yn un cadarnhaol dros ben. Mae'r cymorth rydyn ni wedi'i gael wedi ein helpu ni i sefydlu ein busnes, o gofrestru â Thŷ'r Cwmnïau, ein cynllun busnes a'n rhagolygon llif arian, i allforio ein cynnyrch cyntaf."*

*"Yn ein blwyddyn gyntaf o fasnachu rydyn ni wedi llwyddo i allforio swp unigryw o jin i gwsmer ym Malta, ac wedi datblygu perthynas i barhau i allforio iddo."*



# Buddsodiad Cymdeithasol Cymru (CGGC)

Mae'r Gronfa Twf Busnes cymdeithasol sy'n werth £4m (£2.3m ERDF), a reolir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yn hybu twf busnesau cymdeithasol yng Nghymru ac yn helpu i ddatblygu cynhyrchion, gwasanaethau a marchnadoedd newydd. Mae buddsoddiadau drwy'r gronfa yn cynnwys cymysgedd o gyllid grant a chyllid ad-daladwy, gyda chymhellion ariannol i fusnesau cymdeithasol sy'n rhagori ar dargedau creu swyddi.

**Dywedodd Alun Jones, Pennaeth Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru, CGGC:**

*"Mae'r Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol wedi ein galluogi i gefnogi sefydliadau na fyddai cyllid benthyciad traddodiadol wedi bod yn effeithiol iddyn nhw. Mae wedi eu galluogi i gymryd llawer mwy o risgiau gofalus i ehangu eu busnes, rhywbeth y byddent yn gyndyn o'i wneud yn aml heb y pecyn ariannol cyfunol hwn. Mae'n gwbl glir o'r ddwy astudiaeth achos dan sylw y math o effaith y mae'r sefydliadau hyn yn ei chael ar fywydau pobl, a pha mor gyflym maen nhw'n gallu tyfu. Mae natur hyblyg cyllid yr UE wedi bod yn allweddol o ran caniatáu hynny."*

## Astudiaeth achos

Mae bywydau plant anodd eu cyrraedd sy'n wynebu risg o adael addysg prif ffrwd yn Sir Gaerfyrddin wedi cael eu gweddnewid mewn llai na blwyddyn gan y Cwmni Dysgu Amgen.

Wedi'i sefydlu yn 2017 gan CBSA (the Centre for Building Social Action), cafodd y Cwmni Dysgu Amgen, darparwr addysg amgen, gyllid yr UE drwy'r Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol i roi ail gyfle i bobl ifanc anodd eu cyrraedd ac sydd wedi ymddieithrio, a'u rhagolygon yn gyfyngedig, a'u helpu i ennill cymwysterau a chamu ymlaen i addysg bellach.

*"Pan fyddan nhw'n dod atom ni, dim ond criw o oedolion ydym ni" meddai Holly Nicholl, Rheolwr y Ganolfan Ddysgu. "Ac yn waeth byth, criw o athrawon. Ond ry'n ni wedi llwyddo i feithrin rhai perthnasoedd go iawn."*

Yn ei flwyddyn weithredu gyntaf, derbyniodd y Cwmni Dysgu Amgen bymtheg o bobl ifanc o flwyddyn 11. Y rhagolwg ar gyfer pob un ohonynt oedd na fyddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae pob un wedi camu ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae buddsoddiad gan CGGC wedi helpu'r Cwmni Dysgu Amgen i amrywio ei ffrydiau incwm i sicrhau ei fod ar gael i roi cymorth i bobl ifanc sydd ei angen nawr ac yn y dyfodol.



## Astudiaeth achos

Mae Awesome Wales yn siop a menter gymdeithasol ddi-wastraff yn y Barri, a gafodd gyllid yr UE drwy Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol CGGC. Ei nod yw diogelu'r amgylchedd drwy wneud siopa'n rhywbeth cwbl ddi-blastig, heb becynnau diangen, a sicrhau bod cynnyrch yn dod o ffynonellau moesegol a'i fod yn ecogyfeillgar.

Cafodd y cyfarwyddwyr Amy Greenfield a Stuart Burnell eu hysbrydoli i sefydlu'r fenter gymdeithasol ar ôl cael trafferth dod o hyd i gynnyrch cynaliadwy yn lleol.

*"Roedd dipyn o wrthwynebiad i ddechrau, pobl yn dweud na fyddai'n gweithio, na fyddai pobl y Barri eisiau siopa yn y ffordd yna neu na fyddai'r arian ganddyn nhw i wneud hynny, ei fod yn fwy o 'beth Caerdydd'. Ond ffordd hen ffasiwn o feddwl am y Barri yw hynny", dywedodd Amy.*

Ar ôl dod o hyd i eiddo addas, fe wnaethon nhw benderfynu ar eu cynllun busnes a gwneud cais i CGGC. Agorodd y siop ym mis Gorffennaf 2019, gan gael effaith ar y stryd fawr o'i hamgylch ar unwaith hefyd, gyda rhai siopau cyfagos yn gweld cynnydd o 40% yn eu masnach ar ôl i Awesome Wales agor.

Drwy ganolbwyntio i'r un graddau ar beth gall ei wneud i'w chymuned ac ar beth gall ei werthu iddi, nod Awesome Wales yw cael y gorau o'r ddau fyd.



# Cronfa Fusnes Cymru – Banc Datblygu Cymru

Wedi'i chefnogi gan bron i £111m drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, mae Cronfa Fusnes Cymru, dan reolaeth Cyllid Cymru, yn cefnogi busnesau â llai na 250 o weithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac sy'n fodlon symud yma, a hynny drwy ddarparu cyllid ar ffurf benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti o £50,000 hyd at £2 filiwn.

Mae'r Gronfa'n darparu cyllid i fusnesau newydd, a chyfalaf risg i greu a thyfu cwmnïau sy'n cymryd rhan mewn ymchwil ac arloesi, gan gynnwys cwmnïau deillio, mewn sectorau twf allweddol fel gweithgynhyrchu uwch, gwyddorau bywyd ac iechyd.

Mae hefyd yn helpu busnesau bach a chanolig na fyddent yn gallu cael gafael ar yr holl gyllid sydd ei angen arnynt i fanteisio ar gyfleoedd busnes hyfyw fel arall o bosibl.

## Astudiaeth achos

Roedd Camlas Farm Vets yn y Trallwng wedi gallu adleoli i eiddo mwy o faint diolch i fenthyciad o £80,000 gan Fanc Datblygu Cymru, a wnaeth hefyd sicrhau naw swydd yn y cwmni.

Mae'r practis milfeddygol annibynnol i anifeiliaid fferm, sy'n weithredol yn ardal Powys a Swydd Amwythig, yn cael ei redeg gan Amy McKie a'i chyd-bartneriaid Fflur ac Iolo. Mae trin anifeiliaid yn agos at eu calon ac maen nhw'n gweithio ochr yn ochr â ffermwyr i wneud y gorau o'u da byw a'u mentrau ffermio.

Roeddent wedi bod yn gweithredu o eiddo bach ond ymarferol am chwe blynedd, heb unrhyw ffordd o gynyddu capasiti a gwneud lle i staff cymorth ychwanegol yr oedd angen amdanynt wrth i'r busnes dyfu.

*Dywedodd Amy: "Mae'r eiddo newydd yn dal yn hawdd iawn ei gyrraedd ac mae'n agos i'r farchnad da byw leol. Rydyn ni wedi adnewyddu byngalo ar gyfer defnydd masnachol. Er ein bod yn trin yr anifeiliaid oddi ar y safle fel arfer, yn ystod y tymor wyna mae'n arferol i ffermwyr ddod â mamogiaid ag anawsterau wyna i'r practis. Un o'r pethau rydyn ni'n defnyddio'r benthyciad ar ei gyfer yw troi un o'r ystafelloedd yn theatr llawdriniaethau."*

*Ychwanegodd Amy: "Mae'r benthyciad gan Fanc Datblygu Cymru wedi bod yn hynod o bwysig. Mae'r ffaith bod y benthyciad wedi'i strwythuro i'n hanghenion busnes wedi ein galluogi ni i adleoli, i ddiogelu swyddi ac i gynllunio ar gyfer tyfu yn y dyfodol.*



## Astudiaeth achos

Mae benthyciad o £400,000 gan Fanc Datblygu Cymru wedi helpu gyda'r costau cychwynnol ar gyfer cartref gofal newydd, The Oaks yn y Drenewydd, Powys, a agorodd ei ddrysau ar 6 Ionawr 2020. Mae wedi creu 100 o swyddi amser llawn a rhan-amser, ac mae'n darparu cyfleusterau gofal hanfodol i ardal canolbarth Cymru.


Mae'r cartref gofal wedi'i ddylunio a'i redeg gan Sandstone Care Group, sydd dan berchnogaeth y gweithwyr gofal proffesiynol profiadol Ben Challinor, James Parkin a Richard Shore, ac mae Jen Roberts, rheolwr cofrestredig y cartref, wedi gweithio'n helaeth yn y sector gofal ac yn meddu ar gyfoeth o brofiad o reoli cartrefi gofal yn llwyddiannus yng Nghymru.

Mae 73 gwely ar gael ac mae'r cartref yn canolbwyntio ar ddarparu gofal nyrsio a phreswyl mewn lleoliad o ansawdd uchel. Mae'r llety'n cynnwys lolfa fawr ac ystafell fwyta ar bob llawr, yn ogystal â lolfa dawel ar wahân. Hefyd mae caffi i breswylwyr a'u hymwelwyr ar y llawr gwaelod, ac ardal gyffredin ychwanegol ar yr ail lawr sy'n cael ei defnyddio fel sinema.

Dywedodd Richard Shore, Cyfarwyddwr Cartref Gofal The Oaks:
*"Rydyn ni'n bles iawn ar sut mae'r Oaks wedi dod at ei gilydd. Mae'n fwy na chartref. Diolch i Fanc Datblygu Cymru, rydyn ni wedi gallu creu cymuned breswyl glos a chyfeillgar sy'n cefnogi anghenion preswylwyr hŷn yma yng nghanolbarth Cymru."*



# 04 Cyflogaeth Ieuenctid



Mae cyllid yr UE yn helpu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i helpu i leihau diweithdra ieuenctid, a gwella eu rhagolygon gyrfa a bywyd. Mae'r prosiectau'n canolbwyntio ar godi lefelau cyrhaeddiad, lleihau'r nifer sy'n gadael yr ysgol yn gynnar, cefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yn ogystal â chynyddu lefel sgiliau'r rhai sy'n gweithio ym meysydd y blynyddoedd cynnar a gofal plant er mwyn sicrhau bod plant yn cael cymorth o ansawdd i wella eu datblygiad a'u cyrhaeddiadyn yr ysgol.

**48,790** o gyfranogwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (16–24 oed)

**23,740** o gyfranogwyr sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (11–24 oed)

**6,075** o bobl ifanc STEM 11-19 oed – Bechgyn

**7,115** o bobl ifanc STEM 11-19 oed – Merched

# Trac 11–24

Mae TRAC 11-24, wedi'i gefnogi gan £24.8m o gyllid yr UE, yn gwella cyrhaeddiad pobl ifanc 11-24 oed yng ngogledd Cymru sydd mewn perygl o ymddieithrio rhag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Caiff y prosiect ei arwain gan Gyngor Sir Ddinbych mewn partneriaeth â Chynghorau Conwy, Môn a Gwynedd, Career Choices Dewis Gyrfa Cyf, a Grŵp Llandrillo Menai.

## Astudiaeth achos

Cafodd Owen, disgybl Blwyddyn 10 o Gonwy, ei atgyfeirio at TRAC 11-24 ar ôl cael ei wahardd o'r ysgol fwy nag unwaith. Cytunwyd y byddai darpariaeth addysgol amgen ac ymyriadau lles, fel edrych ar ymddygiad priodol, hunan-barch a hunan-hyder yn helpu Owen i gwblhau ei ddwy flynedd olaf yn yr ysgol. Daw Owen o deulu milwrol ac roedd yn gobeithio ymuno â'r fyddin. Ar sail hynny, fe wnaeth TRAC gofrestru Owen ar gwrs Coleg Paratoi Cymhelliant ar gyfer Hyfforddiant ym Mangor, lle mae wedi gallu datblygu ei ffitrwydd, ennill cymwysterau galwedigaethol a sgiliau cyflogadwyedd er mwyn ei helpu i baratoi ar gyfer dyfodol yn y lluoedd arfog yn y dyfodol.

Mae'r amgylchedd ysgol wedi bod yn heriol i Owen erioed. Mae wedi cael trafferth dilyn rheolau neu ymddwyn yn briodol tuag at staff. Ers dechrau ar TRAC, a drwy ei waith gyda'r Coleg Paratoi Cymhelliant ar gyfer Hyfforddiant, mae hyn wedi newid yn llwyr. Yn ei amser gyda'r Coleg mae Owen wedi datblygu amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy sydd wedi ei helpu i dorri ei arferion blaenorol ac osgoi rhagor o wrthdaro yn ei ysgol uwchradd. Mae agwedd Owen at waith y Coleg wedi cael ei chanmol ac mae'n gwneud cynnydd da tuag at ei gymhwyster Lefel 2, gan wneud unrhyw waith dal i fyny angenrheidiol yn ei amser ei hun gartref. Mae'r cymhelliant a'r ffocws hwn i'w gweld yn yr ysgol hefyd, lle mae Owen bellach yn gweithio tuag at ei TGAU Cymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth a Mathemateg, yn ogystal â chymwysterau Adeiladu ychwanegol o'r gwaith mae'n gwneud unwaith yr wythnos mewn coleg lleol. Mae Owen yn sefyll allan o ganlyniad i'w agwedd ardderchog at waith a'i ymrwymiad i'r cwrs, a hynny drwy'r cymorth mae TRAC wedi gallu ei gynnig iddo. Mae Owen yn enghraifft wych o sut gall prosiect TRAC helpu person ifanc i wireddu ei botensial.

*Dywedodd Owen:*
*"Dwi'n ymdopi'n well yn yr ysgol rŵan nad ydw i yno bum diwrnod yr wythnos. Dwi'n sicr eisiau gyrfa yn y fyddin pan fydda i'n hŷn, a rŵan mae'r llwybr yn glir."*

*Dywedodd Sarjant Crowe o'r Coleg Paratoi Cymhelliant ar gyfer Hyfforddiant: "Roedd Owen yn agored i'r newidiadau i'w ddisgyblaeth, ei hunan-gymhelliant a'i hunan-gred. Hefyd, dechreuodd weld bod angen trosglwyddo hyn i'r amgylchedd ysgol – ein bod yn gweithio gyda rhywbeth, nid yn hytrach na rhywbeth"*



# Technocamps

Mae prosiect Technocamps, sydd wedi'i gefnogi gan £3.8m o gyllid yr UE a'i arwain gan Brifysgol Abertawe mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru a Phrifysgol Bangor, yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i astudio pynciau STEM ar lefel TGAU a thu hwnt, gyda golwg ar ddilyn gyrfa sy'n gysylltiedig â STEM.

Mae Technocamps yn gweithio gyda phobl ifanc ar draws gorllewin Cymru, gogledd Cymru a chymoedd De Cymru, gan dargedu ysgolion uwchradd nad ydynt yn cynnig cyfrifiadureg fel dewis ar lefel TGAU ar hyn o bryd, neu ddim ond newydd ei gyflwyno. Mae'r prosiect yn galluogi disgyblion yn yr ysgolion hyn i gymryd rhan mewn gweithdai er mwyn adeiladu ar eu gwybodaeth a'u brwdfrydedd presennol dros TG a chyfrifiadura.

## Astudiaeth achos

Pan benderfynodd Ben Dodd ymuno â rhai o'i ffrindiau mewn Clwb Roboteg amser cinio yn yr ysgol uwchradd, nid oedd yn gwybod mai dyna oedd dechrau ei daith at yrfa ym maes Cyfrifiadureg. Aeth Ben ymlaen i gystadlu yn y First Lego League, gan gynrychioli'r ysgol mewn cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol.

Dywedodd: *"'Nes i byth feddwl byddai cyfarfod timau o bob rhan o'r wlad yn brofiad mor gyffrous. Roedd hi'n wych gallu trafod prosiectau'r timau eraill a sut roedden nhw wedi eu datblygu. Doedd hi byth yn teimlo fel cystadleuaeth, roedd pawb yno i gael hwyl!"*

Arweiniodd y gystadleuaeth at fwy o weithgareddau ac o fewn dim, roedd e wedi gwirioni, gan gymryd rhan mewn gweithdai fel rhan o'i gwricwlwm ysgol.

Mae Ben wedi dilyn ei angerdd dros gyfrifiadureg ac ar hyn o bryd mae'n astudio cwrs gradd ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'n awyddus iawn i 'roi'n ôl' ac ysbrydoli pobl ifanc sydd yn yr un sefyllfa ag yr oedd ef – heb lawer o ddealltwriaeth o sut i droi diddordeb mewn cyfrifiaduron a roboteg yn yrfa bosibl. Mae wedi parhau i weithio gyda thîm Technocamps fel Uwch Lysgennad, gan roi help llaw mewn gweithdai, clybiau codio, a chefnogi'r prosiect mewn gweithgareddau a digwyddiadau hyrwyddo.

Ac yntau'n egin entrepreneur (a chyfrifiadurwr!), mae'n awyddus i ddechrau ei gwmni ei hun yn seiliedig ar AI a delweddu data.

Beth bynnag sydd yng nghôl ei ddyfodol, pob lwc iddo. A … pwy a ŵyr…?

Efallai fod Technocamps wedi ysbrydoli'r aml-filiwnydd technoleg nesaf!

*Ychwanegodd Ben: "Roedd rhaglennu a roboteg yn gwbl ddiarth i mi i ddechrau. Roeddwn i'n meddwl bod rhaid aros tan y Brifysgol i ddechrau dysgu – dangosodd Technocamps i mi nad yw hynny'n wir. Roedd yn gyflwyniad gwych i gyfrifiadureg ac fe wnaeth fy helpu i wella fy sgiliau rhaglennu o flwyddyn i flwyddyn yn yr ysgol."*





# Hyfforddeiaethau

Mae prosiect Hyfforddeiaethau Llywodraeth Cymru, wedi'i gefnogi gan dros £75m o gyllid yr UE, yn darparu dysgu galwedigaethol i bobl ifanc 16-18 oed ledled Cymru. Nod y prosiect yw hwyluso pobl ifanc i gamu ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach ac, yn gyffredinol, lleihau cyfran y bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

## Astudiaeth achos

Mae epilepsi wedi bod yn rhan o fywyd Carrie-Anne Anthony erioed. Wedi'i magu ger Aberdâr, roedd ffitiau cyson wedi achosi iddi orfod aros yn yr ysbyty sawl gwaith, gan gynnwys bod mewn coma am bedwar mis. Achosodd hyn iddi golli cysylltiad â ffrindiau, colli ei hyder, a cholli ei chof tymor byr. Ond ar ôl gweithio gyda'r darparwr hyfforddiant PeoplePlus Aberdâr, mae'r ferch ifanc wedi ffynnu, gan lwyddo i gyflawni modiwlau Ymgysylltu Hyfforddeiaeth cyn camu ymlaen i Hyfforddeiaeth Lefel 1. Y cam nesaf fydd lleoliad gwaith rheolaidd mewn ysgol gynradd. Ei nod yw swydd amser llawn ym maes gofal plant.

Dywedodd Carrie-Anne:
*"Mae PeoplePlus wedi fy helpu i ddod allan o fy nghragen. Fe gollais fy mam i epilepsi, ac mae wedi bod yn rhan mor fawr o fy mhlentyndod, ond nawr rydw i'n cwblhau tasgau na fyddwn i byth wedi breuddwydio eu gwneud."*



## 05 Cysylltedd a Datblygu Trefol



Mae cyllid yr UE yn helpu i wella trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys gwella ffyrdd a gorsafoedd trên, a rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus mwy integredig gan gynnwys buddsoddiad mawr ym Metro De Cymru. Mae hefyd yn cefnogi cysylltedd digidol drwy helpu i gyflenwi rhwydweithiau digidol cyflym iawn yng Nghymru. Yn ogystal â hynny mae wedi helpu i fuddsoddi mewn safleoedd busnes strategol newydd, datblygu cyrchfannau prysur i dwristiaid, trawsnewid adeiladau gwag i helpu i adfywio canol trefi a'r ardaloedd cyfagos, a chefnogi cyfleoedd economaidd lleol a rhanbarthol i helpu i roi hwb i fuddsoddiad preifat.

**103,533** o aelwydydd â mynediad band eang o 30Mbps o leiaf

**799** o fusnesau wedi'u cefnogi i gysylltu â rhwydweithiau 100Mbps neu uwch

**166,900** â mynediad at fand eang gwibgyswllt (>100Mbps)

**1,230** o eiddo wedi'u creu neu eu hadnewyddu

**£90m** wedi'i ymrwymo i wella'r A55 a'r A40

Dros **£165m** wedi'i ymrwymo i Fetro De Cymru

# Metro De Cymru

Mae Metro De Cymru yn rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig a fydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl deithio ar draws Rhanbarth Prifddinas Caerdydd, gan drawsnewid gwasanaethau rheilffordd a bysiau, yn ogystal â beicio a cherdded.

Wedi'i gefnogi gan dros £165m o gyllid yr UE, bydd y Metro'n darparu gwasanaethu cyflymach, amlach a chydgysylltiedig gan ddefnyddio trenau, bysiau a rheilffyrdd ysgafn.

**Dywedodd Ken Skates, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru:**
*"Roedd hi'n foment bwysig i reilffyrdd yng Nghymru – ac i ddatganoli – yn 2018 pan gafodd y gwasanaeth rheilffordd 'Gwnaed yng Nghymru' cyntaf ei ddylunio a'i gyflawni gan Lywodraeth Cymru.*

*"Mae'r contract rydyn ni wedi'i gytuno yn caniatáu i ni ddatblygu system trafnidiaeth integredig sy'n well i'r amgylchedd ac yn hybu twf economaidd, yn ogystal â chefnogi gwasanaethau cyhoeddus yn well. Mae'r cyfleoedd i ddatblygu systemau Metro yn ne-ddwyrain Cymru, yng ngogledd-ddwyrain Cymru ac ym Mae Abertawe yn hoelio sylw o bob rhan o'r byd.*

*"Unwaith mewn cenhedlaeth daw cyfle i ailddylunio rhwydwaith rheilffyrdd a'i addasu at ddibenion gwahanol, ac rwy'n hyderus, erbyn 2033, y bydd gan Gymru un o'r gwasanaethau rheilffordd gorau yn y DU."*



# Canolfan Drafnidiaeth Port Talbot

Mae £2.3m o gyllid yr UE wedi cefnogi prosiect Canolfan Drafnidiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i ganoli prif gysylltiadau trafnidiaeth Port Talbot, gan gynnwys gorsaf Parcffordd, terfynell bysiau newydd, cyfleusterau beicio, safle tacsis a chilfachau gollwng a chodi mewn ymgynullfan i gerddwyr yn bennaf, gan roi mynediad haws at fannau cyflogaeth a phreswyl yn y dref a'r cyffiniau.

**Dywedodd y Cynghorydd Robert Jones, Arweinydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot:**
*"Mae'r Ganolfan Drafnidiaeth Integredig newydd ym Mhort Talbot wedi gwella cysylltedd y dref ac wedi hybu a galluogi rhagor o gyfleodd adfywio, buddsoddi a thwf. Mae'r Canolfan wedi dod â chyfleusterau bysiau, trenau, beicio a chyfleusterau i gerddwyr ynghyd mewn amgylchedd diogel a modern sydd wedi creu mynedfa fywiog i dref Port Talbot."*





# Cyrchfannau Denu Twristiaeth

Mae £30.7m o gyllid yr UE wedi helpu rhaglen Cyrchfannau Denu Twristiaeth Llywodraeth Cymru i greu 11 o gyrchfannau na ellir eu methu er mwyn ennyn diddordeb yng Nghymru fel cyrchfan gwyliau i ymwelwyr newydd ac ymwelwyr dychwel, a thyfu'r sector twristiaeth yng Nghymru.

Fel rhan o'r rhaglen, rhoddwyd gwerth £3.4m a £4m o gymorth i Lannau Caernarfon a Harbwr Saundersfoot yn y drefn honno.

Mae prosiect Glannau Caernarfon yn trawsnewid Caernarfon yn gyrchfan eiconig o safon genedlaethol a ryngwladol i dwristiaid, gan adeiladu ar asedau diwylliannol a hanesyddol eithriadol yr ardal.

**Mae prosiect Glannau Caernarfon yn cynnwys y canlynol:**

- Gwella Canolfan Mentrau Creadigol y Galeri yn Noc Fictoria
- Terfynell Rheilffordd Eryri – Datblygu cyfleusterau gorsaf newydd ar gyfer Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri, sy'n adnabyddus o amgylch y byd, yn ardal Cei Llechi
- Buddsoddi mewn datblygu seilwaith i wella'r mynediad a'r cysylltiadau rhwng y prif atyniadau

Mae prosiect Porth y Brenin Castell Caernarfon hefyd wedi cael cymorth cyllid yr UE ar gyfer adfer a throsi ased hanesyddol allweddol, gan gynnwys gwella'r cyfleusterau i ymwelwyr yn sylweddol ac adfer y mynediad at y waliau caerog trawiadol.

Mae'r gwaith o ailddatblygu Harbwr Saundersfoot yn cynnwys cyfres o ddatblygiadau cysylltiedig sy'n sefydlu Saundersfoot fel cyrchfan arfordirol a morol eiconig i dwristiaid yn ne-orllewin Cymru.

Mae'r prosiect yn cynnwys creu Canolfan Rhagoriaeth Forol, Ocean Square – Canolfan Sgwner Arfordirol, a Doc Digwyddiadau Cenedlaethol.



### Gwella Canolfan Mentrau Creadigol y Galeri





### Datblygu Terfynell Rheilffordd Eryri




### Glannau Caernarfon



### Castell Caernarfon



### Saundersfoot



# Adeiladu ar gyfer y Dyfodol

Mae £38m o gyllid yr UE wedi helpu rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol Llywodraeth Cymru i adfywio canol trefni ac ardaloedd cyfagos drwy adnewyddu neu ailddatblygu adeiladau a thir diffaith neu a danddefnyddir, a'u defnyddio unwaith eto. Ei nod yw cefnogi twf busnesau, creu swyddi a chynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol trefi.

## Llys yr Harbwr

Fel rhan o'r rhaglen, mae £1m o gyllid yr UE wedi cefnogi prosiect Llys yr Harbwr i drawsnewid yr hen lys ynadon ym Mhort Talbot. Cafodd yr ailddatblygiad ei ddylunio i ddenu cwmnïau sy'n canolbwyntio ar dechnoleg drwy ddarparu gofod swyddfa modern, o safon uchel, â chysylltedd band eang gwibgyswllt. Wedi'i leoli ar Ffordd yr Harbwr, un o'r prif fynedfeydd i Bort Talbot, mae hefyd wrth ymyl safle cyflogaeth strategol Glannau'r Harbwr ac mae ganddo gysylltiadau trafnidiaeth gwych gan ei fod yn agos i'r M4, Gorsaf Drenau Parcffordd Port Talbot, a Chanolfan Drafnidiaeth Integredig y dref.

## Neuadd y Farchnad Caergybi

Cafodd Neuadd y Farchnad Caergybi ei chefnogi gan £820,000 o gyllid yr UE drwy Adeiladu ar gyfer y Dyfodol. Roedd y cyllid wedi sicrhau bod Adeilad Rhestredig Gradd II a oedd yn wag ers amser wedi cael defnydd newydd drwy ei drawsnewid yn gyfres o fannau gwaith a swyddfeydd i fusnesau lleol newydd a rhai sy'n ehangu, yn ogystal ag ystafelloedd cyfarfod a llyfrgell newydd y dref. Hefyd, fe wnaeth y prosiect integreiddio mesurau effeithlonrwydd ynni ôl-osod mewn modd sensitif, gan gadw cymeriad hanesyddol yr adeilad ar yr un pryd. Enillodd y Neuadd Wobr Effaith Gymdeithasol 2020 RICS o dan y Categori Treftadaeth yng Nghymru.










## 06 Trechu Tlodi

Mae cyllid yr UE wedi cefnogi cynhwysiant cymdeithasol ac wedi helpu pobl i gael swyddi drwy gynyddu cyflogadwyedd y rhai sydd fwyaf mewn perygl o dlodi, a lleihau tangyflogaeth i bobl gyflogedig â chyflyrau iechyd sy'n effeithio ar eu gallu i weithio, a rhwystrau eraill at ymgysylltiad cynaliadwy â'r farchnad lafur.



Wedi helpu **5,243** o bobl y mae dileu swyddi wedi effeithio arnynt

**64%** o bobl y mae dileu swyddi wedi effeithio arnynt wedi ennill cymhwyster erbyn gadael

Wedi ymgysylltu â **30,680** o bobl economaidd anweithgar (dros 25 oed) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sy'n wynebu rhwystrau cymhleth at waith

Wedi ymgysylltu â **19,480** o bobl ddi-waith hirdymor (dros 25 oed) sy'n wynebu rhwystrau cymhleth at waith

Wedi ymgysylltu â **7,330** o bobl gyflogedig a hunangyflogedig sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n effeithio ar eu gallu i weithio

Wedi ymgysylltu â **1,265** o gyfranogwyr di-waith sy'n wynebu rhwystrau at gyflogaeth lawn

# Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth

Nod y prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth gwerth £21.3m, sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, yw gwella rhagolygon cyflogaeth rhieni lle mai gofal plant yw eu prif rwystr at hyfforddiant neu gyfleoedd gwaith.

Mae'r prosiect yn darparu cymorth un-i-un ar gyfer nodi dewisiadau a chyllid gofal plant, helpu i gyfrifo a fyddech yn ennill mwy yn y gwaith, a helpu gyda gofynion hyfforddiant i symud rhieni'n agosach i'r gweithle. Mae Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth hefyd yn talu costau gofal plant pan fydd y rhieni'n cyflawni hyfforddiant, ar brofiad gwaith neu'n gwirfoddoli i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael swydd.

**Dywedodd Leann o Gastell-nedd:**
*"Heb amynedd, dealltwriaeth a gwybodaeth fy nghynghorwr Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, byddwn i wedi rhoi'r gorau i chwilio am waith. Drwy ennill cymwysterau ychwanegol, profiad gwaith a hyder, roeddwn yn teimlo fy mod yn gallu cystadlu ag eraill sy'n chwilio am waith ac fe wnaeth hynny fy helpu i ddod o hyd i swydd sy'n cyd-fynd yn wych â fy rôl fel rhiant."*

**Dywedodd Carrie o Aberdâr:**
*"Mae fy nghynghorydd wedi bod yn gymorth ardderchog drwy gydol fy nhaith, nid yn unig o ran gofal plant ond drwy ei hamser, ei hamynedd a'i chlust. Hyd yn oed os nad oedd hi'n gwybod yr ateb i bob un o fy nghwestiynau, roedd hi'n gallu fy nghyfeirio i'r lle iawn. Mae'r ganmoliaeth, yr agwedd gadarnhaol a'r anogaeth wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fy nghynnydd. Hoffwn ddiolch yn bersonol i Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth ac i fy nghynghorwr, oherwydd byddai wedi bod yn anoddach o lawer cael fy nghanlyniad llwyddiannus heb y cymorth yma."*



# Sicrhau Newid drwy Gyflogaeth

Mae'r prosiect Sicrhau Newid drwy Gyflogaeth, wedi'i gefnogi gan £2.3m o gyllid yr UE, yn cael ei arwain gan CGL Ltd (Change, Grow, Live). Mae'n darparu cymorth sy'n benodol i anghenion y gymuned BAME ar draws dwyrain Cymru. Mae'r cymorth yn cynnwys magu hyder a chymhelliant, cynyddu lefel sgiliau a gwybodaeth, a galluogi unigolion i gystadlu'n gyfartal yn y farchnad swyddi yng Nghymru.

## Astudiaeth achos

Roedd Sicrhau Newid drwy Gyflogaeth yn falch o helpu Emine i gael cyllid er mwyn sefyll ei hasesiad ieithyddol proffesiynol, PLAB 2, a fydd yn ei galluogi i weithio fel meddyg yn y GIG.

Dywedodd Emine:
*"Mae gen i radd ryngwladol mewn meddygaeth a dwi wedi bod yn fodlon dilyn gyrfa yn y DU fel meddyg. Er bod y broses yn un syml, roedd hi'n eithaf anodd imi ar ddechrau'r daith. Roedd gofynion fel hyfedredd yn y Saesneg (pasio arholiadau IELTS neu OET), ac asesiad cymhwysedd meddygol (arholiadau PLAB 1 a PLAB 2). Cefais fy atgyfeirio at Sicrhau Newid drwy Gyflogaeth ar ôl pasio arholiad PLAB 1 ac fe wnaeth fy swyddog achos fynd ati i ganfod pa fath o gymorth oedd ei angen arna' i, a sut byddai'n gallu fy helpu. Er nad oedd wedi cefnogi gweithiwr meddygol proffesiynol cyn fi, aeth ati i chwilio'r broses a dewisiadau swydd posib i fi. Pan oedd ganddo syniad clir, cafodd y penderfyniad ei wneud, a chefais fy nerbyn fel cyfranogwr.*

*"Nid dim ond cymorth ariannol ges i. Dwi wedi cael cyfarfodydd rheolaidd bob wythnos (dwywaith yr wythnos weithiau) sydd wedi gadael inni gael sgwrs. Cafodd y cyfarfodydd hyn eu cynnal mewn awyrgylch cyfeillgar iawn, felly roeddwn i'n edrych ymlaen atyn nhw bob tro. Ar ôl ychydig o amser, daeth y cyfarfodydd hyn yn fwy creadigol a phenodol. Fe wnaethon ni ddechrau gyda gweithdai a pharhau i ymarfer sefyllfaoedd posib ar gyfer yr arholiad. Yn garedig iawn, ges i gynnig mwy o sesiynau ymarfer pan oedd hynny'n bosib. Roeddwn i'n cael adborth ac anogaeth ar ôl pob sesiwn ymarfer. Doedd y swyddog byth yn cwyno nac yn dangos unrhyw arwydd o anfodlonrwydd. I'r gwrthwyneb, mae wedi bod yn gyfeillgar bob tro ac yn barod i fynd yr ail filltir i fi."*



# Gweithffyrdd+

Mae'r prosiect Gweithffyrdd+, sy'n cael ei arwain gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot a'i gefnogi gan £17.3m o gyllid yr UE, yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith â thâl i bobl ddi-waith hirdymor yn ne-orllewin Cymru i'w helpu i gael eu bywyd yn ôl ar y trywydd iawn.

## Astudiaeth achos

Mae gan Paul Fitzgerald, sy'n 26 oed ac yn byw yng Nghastell-nedd Port Talbot, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) ac roedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir. Roedd Paul yn teimlo ei fod wedi colli ei ffordd a bod bywyd yn llithro heibio heb gyffwrdd ag ef. Cysylltodd â Gweithffyrdd+ a chael cymorth un-i-un ganddynt i fagu ei hyder, dod o hyd i swyddi addas, hyfforddiant wedi'i ariannu, a chymorth i chwilio am swydd. Gyda chymorth Gweithffyrdd+ cafodd Paul swydd gyda Silurian Security, lle mae wedi gweithio am dros 12 mis erbyn hyn.

Dywedodd Paul:
*"Mae'n wych peidio â gorfod dibynnu ar fudd-daliadau. Mae gen i arian i gefnogi'r teulu ac i wneud pethau. Dwi'n cael digon o oramser a dwi wir yn mwynhau fy ngwaith. Hoffwn i ddiolch i Gweithffyrdd+. Mae Rhiannon a Lesley wedi bod yn wych ac os oes angen cymorth ar unrhyw un i gael gwaith, ffoniwch Gweithffyrdd+ da chi".*



## Astudiaeth achos

Yn ddi-waith am 10 mlynedd, roedd Steve Crouch, gŵr 44 oed o Abertawe, yn dechrau meddwl na fyddai byth yn cael gwaith. Roedd Steve wedi cael niwed niwrolegol a oedd yn effeithio ar ei gefn, ac roedd yn dioddef o boen a stiffrwydd difrifol. Roedd yn ysu am gael gwneud gwaith adeiladu eto a'i gam cadarnhaol cyntaf oedd cysylltu â Gweithffyrdd+.

Fe wnaeth Gweithffyrdd+ neilltuo mentor pwrpasol i Steve, sef Tracy Bowen. Fe wnaeth hefyd drefnu ac ariannu prawf diogelwch safle'r Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS), a fyddai'n ei alluogi i weithio ar safle adeiladu, a'r cwrs hyfforddi gloywi 'Forward Tipper Dumper Truck'. Pasiodd Steve y ddau. Mae Gweithffyrdd+ hefyd wedi talu am esgidiau diogelwch, het galed a dillad llachar. Fe wnaeth Gweithffyrdd+, drwy ei dîm o Swyddogion Cyswllt Cyflogaeth, chwilio am gwmni adeiladu yn ei rwydwaith o gwmnïau a sefydliadau partner. Bellach mae Steve yn gweithio i Buckingham Group, prif gontractwr prosiect Arena Abertawe.

Dywedodd Steve:
*"Ges i gymorth gan Gweithffyrdd+ ar ôl bod yn ddi-waith am 10 mlynedd. Roeddwn i'n ysu am gael dychwelyd i'r byd adeiladu. Mae gwaith caled, brwdfrydedd, cymorth gan Gweithffyrdd+ a'r hyfforddiant cywir wedi rhoi'r swydd ddelfrydol i mi. Rydw i mor falch o fod nôl mewn gwaith. Diolch Gweithffyrdd+."*



## 07 Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni



Mae cyllid yr UE wedi cynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni yng Nghymru, er mwyn lleihau effaith allyriadau carbon ar yr amgylchedd a helpu i drechu tlodi tanwydd drwy gefnogi cynlluniau ynni ar raddfa fach, gwella effeithlonrwydd ynni'r cartrefi sydd fwyaf tlawd o ran tanwydd, a helpu i sefydlu Cymru fel canolfan ar gyfer cynhyrchu ynni'r môrn.

Wedi gwella dosbarthiad defnyddynni **1,663** o aelwydydd

Wedi profi **3** prototeip ynni adnewyddadwy

**2** o safleoedd Profi ac Arddangos Ynni'r Môr ac Ymchwil yn cael eu datblygu yng ngorllewin a gogledd Cymru

## Gower Power

Mae Gower Power Solar Storage yn gynllun arloesol sy'n arwain y farchnad, wedi'i gefnogi gan £600,000 o gyllid yr UE. Mae'n cyflenwi ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol i ddefnyddwyr lleol gan ddefnyddio mesuryddion clyfar.

Mae'r cynllun storio, wedi'i leoli yn y fferm solar gyntaf yng Nghymru i fod dan berchnogaeth y gymuned, yn creu model ynni cymunedol lleol a allai arwain at gyflwyno cynlluniau ar raddfa fwy y gellid eu hatgynhyrchu mewn dwsinau o gymunedau ledled y DU.

**Dywedodd Ant Flanagan, cyd-sylfaenydd Gower Power Solar Storage:**
*"Mae lansio'r cyntaf o lawer o'r cynlluniau storio a chyflenwi lleol hyn yn foment gyffrous iawn. Rydyn ni'n falch iawn ein bod wedi creu ffordd o helpu cymunedau i sicrhau manteision asedau ynni adnewyddadwy yn eu hardal leol."*






# Deep Green

Mae Minesto, datblygwr ynni'r llanw o Ynys Môn, wedi elwa ar £27.9m o gyllid yr UE ar gyfer Deep Green – y prosiect ynni'r llanw cyflymder isaf cyntaf yn y byd. Mae'n cynnwys barcutiaid dan y dŵr yn cynhyrchu ynni o ffrydiau llanw oddi ar arfordir Ynys Môn.

Mae'r prosiect yn rhan o gynllun tymor hwy i ehangu safle Dyfnder Caergybi i aráe ynni'r llanw fasnachol 80 megawat â'r potensial i greu digon o ynni i bweru tua 60,000 o gartrefi.

**Dywedodd Dr Martin Edlund, Prif Weithredwr Minesto:**
*"Mae cyllid yr UE wedi bod yn hollbwysig o ran masnacheiddio ein technoleg ac mae'n arwydd cryf o ymrwymiad Llywodraeth Cymru. Rydyn ni'n falch o weld ein bod yn rhannu agenda i ddiwydianeiddio ynni'r llanw yng Nghymru er mwyn ei gwneud hi'n bosib cynhyrchu ynni glân, lleol ar raddfa fawr o ffrydiau llanw Cymru. Bydd gwneud hynny'n galluogi datblygiadau diwydiannol yn y tymor hir yng ngogledd Cymru."*





# WaveSub

Cafodd Marine Power Systems yn Abertawe £15.9m o gyllid yr UE i ddatblygu a phrofi dyfais dan y dŵr sy'n gallu cynhyrchu ynni glân, fforddiadwy a dibynadwy yng Nghymru ac o amgylch y byd.

Cafodd y ddyfais WaveSub ei dyfeisio gan Dr Gareth Stockman a Dr Graham Foster, graddedigion o Brifysgol Abertawe a sefydlodd Marine Power Systems yn 2008.

Gan ddefnyddio technoleg wedi'i phatentu a'i datblygu gan y cwmni, mae'r ddyfais yn gweithredu dan wyneb y môr drwy gasglu dwysedd pŵer uchel tonnau'r môr.

**Dywedodd Dr Gareth Stockman, Prif Weithredwr Marine Power Systems:**
*"Mae'r gefnogaeth ariannol rydyn ni wedi'i chael gan Lywodraeth Cymru drwy gyllid yr UE a buddsoddiad preifat yn dangos yr hyder yn y sector ynni'r môr, ac yn ein galluogi i ddilysu'r dechnoleg ar ei raddfa lawn cyn ei masnacheiddio. "Mae datblygu hyn yn Abertawe yn hwb mawr i Gymru a bydd yn rhan o gyfraniad yr Economi Las i'r adferiad gwyrdd. Nid yn unig drwy greu sgiliau medrus iawn i gynhyrchu ein dyfeisiau, ond hefyd drwy ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a thechnoleg sy'n gallu cael eu hallforio o amgylch y byd, a chyfrannu at ymrwymiad y DU i gyrraedd allyriadau carbon sero net erbyn 2050."*





# Bombora



Mae £10.3m o gyllid yr UE yn cefnogi'r gwaith o ddylunio a phrofi trawsnewidydd ynni tonnau ar ffurf pilen sydd wedi'i suddo'n llwyr ac yn gallu cynhyrchu llawer iawn o ynni – gan baratoi'r ffordd i'r datblygwyr, Bombora Wave Power Europe, i adeiladu a masnacheiddio'r dechnoleg o'i safle yn Sir Benfro.

Mae cynnyrch mWave™ Bombora, yn cyflwyno dull newydd o gasglu ynni'r môr drwy eistedd o dan wyneb y môr lle mae'n casglu ynni o wasgedd y tonnau uwchben.

Ar ôl cael cydsyniad llawn ar gyfer y safle profi yn hydref 2019, mae Bombora yng ngham cydosod Prosiect Arddangos mWave 1.5MW ar raddfa lawn yn Sir Benfro, gyda'r gosodiad wedi'i drefnu yn gynnar yn 2021.

**Dywedodd Sam Leighton, Rheolwr Gyfarwyddwr Bombora:**
*"Dechreuodd y prosiect yn 2018 ac mae'r tîm o bedwar wedi tyfu i 27. Ein bwriad yw tyfu ein gweithlu deirgwaith dros y tair blynedd nesaf. Mae'r prosiect hefyd yn cynnal 45 o swyddi medrus iawn ychwanegol drwy gontractau'r gadwyn gyflenwi yng ngorllewin Cymru.*

*"Rydyn ni'n falch iawn o allu gwireddu'r prosiect hwn yn Sir Benfro. Mae'r rhanbarth wedi elwa ar dros £18.4 miliwn o fewnfuddsoddiad hyd yma. Mae gan mWave y potensial i drawsnewid y sector ynni adnewyddadwy ac mae Cymru mewn sefyllfa dda i chwarae rôl allweddol yng nghynlluniau ehangu'r cwmni."*



